# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13583

## 176

---

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.27

Am 14.41, cododd Andrew RT Davies Bwynt o Drefn ynghylch cyfraniad a wnaeth Joyce Watson yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n adolygu'r Cofnod.

### 3 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Yr Economi Sylfaenol

Dechreuodd yr eitem am 14.42

### 4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) - Tynnwyd yn ôl

Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

### 5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Canlyniadau PISA 2022

Dechreuodd yr eitem am 15.16

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Aros yn Rhagweithiol: diweddariad ar gynnydd

Dechreuodd yr eitem am 15.56

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl

Dechreuodd yr eitem am 16.26

Am 17.07, dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi adolygu'r Cofnod mewn cysylltiad â'r Pwynt o Drefn a godwyd am 14.41 a'i fod o'r farn nad oedd cyfraniad yr Aelod wedi bod yn groes i'r drefn.

## 8 Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**NDM8430 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023

Dechreuodd yr eitem am 17.09

**NDM8433 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Rheoliadau’r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Dechreuodd yr eitem am 17.14

**NDM8432** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau’r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a **osodwyd** yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**NDM8431** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023 yn cael ei llunio yn unol â’r fersiwn ddrafft a **osodwyd** yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod eitemau 12 a 13 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

Derbyniwyd y cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod eitemau 12 a 13 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

## 12 Egwyddorion cyffredinol y Bil Seilwaith (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.24

NDM8427 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Seilwaith (Cymru).

Gosodwyd y Bil Seilwaith (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Senedd ar 12 Mehefin 2023.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y Bil Seilwaith (Cymru) gerbron y Senedd ar 24 Tachwedd 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 13 Y penderfyniad ariannol ynghylch y Bil Seilwaith (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.24

NDM8426 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Seilwaith (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 14 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd Cyfnod Pleidleisio

Daeth y cyfarfod i ben am 18.19

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 6 Rhagfyr 2023**